

❖ Y NADOLIG

Llefarydd

Nadolig eto ddaeth i'r tir
A dathlu wnawn mewn tref a sir,
Gan ganu carol, darllen Gair
A stori brydferth baban Mair.

Dychwelyd wnawn flynyddoedd maith,
Ar fwrdd dychymyg gwnawn y daith
I 'stafell fach yn Israel
A chwmmi Mair a Gabriel.

Gabriel

Paid ofni Mair fy ngweled i,
Rwy'n dod â neges atat ti;
Mae Duw am iti gael ei Fab,
A'r Ysbryd Glân fydd iddo'n dad.

Mair

Wel caton pawb, rwyf i yn syn,
Beth ddwed fy nghariad i am hyn?
Fe gred na fûm yn ffyddlon ferch
A cholli wnaif bob dafn o'i sech.

Gabriel

Nac ofna Mair, gad hyn i fi,
Fe welaf Joseff yn y tŷ,
Esboniaf am yr hyn sy' fod,
A mwy, nid llai, a fydd dy glod.

Mair

Wel dyna fe – gadawaf i
Y broblem yna'n llwyr i ti;
Af draw i weled un o'r teulu,
Mae Lisabeth yn erfyn babi.

Llefarydd

A dyna fel y bu, fy ffrind,
I Mair at Lisabeth i fynd,
A Joseff wedi cael esboniad
A aeth ymlaen i briodi'i gariad.

Ond draw yn Rhufain, dinas fawr
Oedd yn rheoli ar y llawr,
Fe basiwyd deddf i gyfrif pen
Pob copa walltog is y nen.
Rhaid oedd i bawb i fynd i'w le;
Joseff a Mair i Fethlem dre.

Nid oedd y daith yn hawdd i'w gwneud,
Roedd cefen Mair yn flin, rhaid dweud,
Nid oedd yr asyn yn rhy gyfforddus,
Roedd Joseff yntau'n wir ofidus.
'Rôl cyrraedd Bethlem yn y bore
Rhaid chwilio llety i Mair ac ynte.

Joseff

Oes lle i ddau i aros tipyn,
Mae amser hir ers gadd Mair napyn?

Gofalwr 1

Mae'r lle 'ma'n llawn – ie, gwêl yr arwydd,
Diolcha wir mai sych yw'r tywydd.

Joseff

Oes gobaith, syr, am le i gysgu,
Dyw Mair a fi ddim yn rhy ffysi?

Gofalwr 2

Dim lle o gwbl, mae'n rhaid cael dweud,
Ond dyna fe, 'sdim byd i'w wneud;
Mae'r sensws hwn yn llanw'r ddinas,
Mae gwrthod lle yn itha diflas.

Joseff

Oes cwt, shed lo, neu gysgod gen ti?
Mae bron yn bryd i Mair gael babi.

Gofalwr 3

Mae stabal allan yn y cefen,
Mae'n itha neis, ond angen trefen!

Llefarydd

Ac felly lle'r oedd ych yn cysgu,
Fe gafwyd lle i Mair i eni.

Y bobl gynta i gael clywed
Oedd bechgyn wrthi'n gwyllo'r defed.
Daeth côr angylion i ganu'r stori,
A peri braw a stop ar bori.

Ifan

Hei, bois, rwy'n clywed rhywbeth rhyfedd,
Mae canu ar nefolaidd donfedd.

Dai

Ti'n iawn, rwy inne'n clywed canu,
Sy'n well na Callas a Pafroti!

Twm

Co nhw fan draw lan yn yr awyr,
Sdim mynydd yna na dim llwybr,
Mae'n rhaid'u bod nhw i gyd yn hedeg,
Hei bois! Rwy inne'n mynd i redeg.

Angylion

Nac ofnwch fechgyn ar y llawr,
Dod ydym ni â neges fawr,
A ddaw â gwên a chwerthin iach
O eni'm Methlem grwtyn bach.

Ifan

Beth y'ch chi 'te, angylion ffel?
Mae'ch hedfan, canu, chi yn swel.

Dai

Be sy' mor sbesial geni babi,
Ma dau neu dri gan anti Gerti.

Twm

Mae'n rhaid yn wir fod hwn yn rhyfedd
I rhain ddod lawr o'r nef bob modfedd!

Angylion

Mae'n itha reit, mae hwn yn sbesial,
Bydd hwn yn rhoi y diawl ar dreial.
Ond nawr heb wasto amser bellach
Ewch i weld y bach mewn cadach.
Mae'n gorwedd, yr un bach di-nam,
Mewn preseb gyda Mair ei fam.

Llefarydd

Ar frys fe aeth y tri bugeiliaid
I weld ai gwir oedd yr holl siarad.
Aeth Twm ag anrheg yn ei freichiau,
Oenig bach i Grist y meichiau.

Dai

Diaich dyma nhw y teulu dethol,
Ni welais delach glanach pobol.

Ifan

Mae'r bobl yna, on'd yw'n brydferth?
Ai hwn fydd i ni oll yn bridwerth?

Twm

Wel dyna chi olygfa hardd,
Yn wir fe ysbrydola fardd
I ganu cerddi llawn o swyn
Am ofal mam am blentyn mwyn.

Mair

Ar ran fy mab fe fentra' i
Ddiolch yn fawr am eich rhodd i ni.

Joseff

Wel ie! Annisgwyl iawn yn wir
A ni'n ddieithriaid yn y tir.

Llefarydd

Ac yna wedi gweld y baban
Aeth y bechgyn tua thre dan chwiban.

Ym Mhersia bell fe welwyd doethion
Yn craffu yn yr uwch berfeddion
A gweled seren yno'n gwenu,
I'w chanlyn hi yr oedd 'n eu denu.

Belthasar

Mae hon yn seren wir unigryw,
Un sydd â neges i ddynolryw.

Caspar

Mae 'mhen i'n dost ar ôl ei watsho,
Fe gaf gwpaned a dwy aspro!

Melchior

Edrych; edrych, mae hi'n symud
O leia lathed bob rhyw funud.

Belthasar

At y camelod, dowch, ie brysiwch,
Ei chanlyn wnawn bob cam drwy'r t'wyllwch.

Llefarydd

Ac felly bu i'r dynion clyfar
Fynd i'r gorllewin yn eu cyfer,
Nes cyrraedd dinas fawr Caersalem,
Yn swps a chwys ac angen halen.

Caspar

Gwell i ni alw i weld Herod
I'n hachub rhag mynd ar ddisberod,
Fe ddyle fe o bawb fo'n gwybod
Os oes tywysog wedi dyfod.

Llefarydd

Ond nid oedd Herod yn rhy hapus,
Rhodd glipsen i rhyw was anffodus,
Ond gwenodd ar y tri o'i flaen o,
Y math o wên gaiff iâr gan gadno!

Herod

Wel! annwyl ffrindie, mi a holaf
Ymhlith yr arbenigwyr danaf,
Efallai fod 'na air yn rhywle,
Yn cuddio yn yr ysgrythure.

Arbenigwr

Syr; dwed fan hyn yn ôl yr adnod
Mai i Fethlem fydd e'n dyfod!

Herod

Dyna chi, ymlaen â'r chwilio,
Ac o'i flaen dof i benlinio.

Llefarydd

Gan adael Herod gyda'i lys
Ailgychwyn wnaethant gyda brys,
A chanlyn eto'r seren dlos
Yn dal i'w harwain drwy y nos.

Belthasar

Rwy'n credu'i bod hi yn arafu,
Efallai dyna lle mae'r babi?

Caspar

Gobeithio wir, rwyf wan fy ngafel,
A da fydd dod oddi ar gefn 'rhen gamel!

Melchior

Oes bosibl? Y fath dwll yw'r lle
Y ganwyd eneiniedig ne'!

Llefarydd

Ie, dyna'r lle, a dyna'r fan
Daeth Duw i'r byd mewn bychan gwan,
Heb dŵr, na mur, na gwaywffon,
Cariad oedd yn gwarchod hon.

Arhosodd nawr y seren wen
A'i golau tyner fry uwchben,
Ac yn ei llewyrch plygodd tri
Wrth breseb ein gwaredwr ni.

Caspar

Cymer, Arglwydd, felyn aur,
Brenin wyt, nid mab i saer.

Melchior

Thus yn perarogli rof,
Bydd sawr dy fywyd ar ein cof.

Belthasar

Ar ddiwedd gyrfa gwelaf groes
A swydd y myrr fydd lleddfu'r loes.

Mair

Ar ran fy mab derbyniaf i
Eich hael garedig roddion chi.

Joseff

Cymerwch rywbeth bach i'w fwyta
Cyn troi eich wyneb tuag adra'?

Caspar

Na, fe awn yn awr ar frys,
Mae drwg yn crawnu yn y llys.

Llefarydd

A ffwrdd â'r tri i Bersia 'nôl
Gan adael pryder ar eu hôl.

A Mair fyfyriodd ar y Gair,
Y bach diniwed yn y gwair.

Pawb

Dowch, canwn, plygwn wrth ei draed,
Nadolig yw a dathlu raid:
Mewn Capel, llan a phalas gwych,
Neu fwthyn tlawd, neu feudy'r ych;
Fe ddaeth y Crist, cyhoeddodd Duw
Drwy sêr ac engyl – MAE YN FYW.

E. L. Rees